



Cwestiynau Blank i'w gofyn yn yr ystafell ymolchi.

Blank, Rose & Berlin 1978

Lefel	Pwrpas y cwestiwn
1	Enwi pethau
2	Disgrifio pethau
3	Trefnu ac ail-ddweud stori
4	Rhesymu a datrys problem

Lefel	Cwestiwn / Beth i'w ddweud
1	Dangos y tap i mi.
1	Beth ydi hwn? (potel siampŵ)
2	Beth wyt ti'n ei wneud efo tywel?
2	Beth wyt ti'n ei ddefnyddio i frwsio dy ddannedd?
2	Dangos rhywbeth meddal yn yr ystafell ymolchi.
3	Ar ôl brwsio dannedd (tynnwch luniau gam wrth gam) Beth wnes di gyntaf? Beth wnes di wedyn? Beth wnes di olaf?
4	Os ydi dŵr y bath yn rhy boeth, beth fedri di ei wneud?
4	Pam ei bod hi'n bwysig ymolchi?
4	Sut wyt ti'n gwybod os oes angen tywel glân?




Daw'r lluniau o lyfr 1000 Gair Cyntaf Sali Mali, Gwasg Gomer.



Cyfathrebu a Rhyngweithio / Communication and Interaction





Cwestiynau Blank i'w gofyn yn y gegin.

Blank, Rose & Berlin 1978

Lefel	Pwrpas y cwestiwn
1	Enwi pethau
2	Disgrifio pethau
3	Trefnu ac ail-ddweud stori
4	Rhesymu a datrys problem

Lefel	Cwsetiwn / Beth i'w ddweud
1	Ble mae'r sosban? (y plentyn i ddangos)
1	Dangos y badell ffrio i mi.
1	Beth ydi hwn? (clorian)
2	Beth wyt ti'n ei wneud efo cyllell?
2	Rwyd ti'n defnyddio llwy i droi pethau, beth arall wyt ti'n ei wneud efo llwy?
3	Ar ôl gwneud brechdan (tynnwch luniau gam wrth gam) Beth wnes di gyntaf? Beth wnes di wedyn? Beth wnes di olaf?
3	Ar ôl gwneud brechdan Fedri di ddweud wrtha i sut i wneud brechdan? Yn gyntaf...
4	Pam fod rhaid bod yn ofalus wrth agor y popты?
4	Sut wyt ti'n gwybod fod y tegell wedi berwi?



Daw'r lluniau o lyfr 1000 Gair Cyntaf Sali Mali, Gwasg Gomer.



Cyfathrebu a Rhyngweithio / Communication and Interaction





Cwestiynau Blank i'w gofyn yn yr ystafell wely.

Blank, Rose & Berlin 1978

Lefel	Pwrpas y cwestiwn
1	Enwi pethau
2	Disgrifio pethau
3	Trefnu ac ail-ddweud stori
4	Rhesymu a datrys problem

Lefel	Cwsetiwn / Beth i'w ddweud
1	Dangos y bachyn i mi.
1	Beth ydi hwn? (swits golau)
2	Ble mae'r tedi? (y plentyn i ateb e.e. yn y bocs)
2	Pwy sy'n golchi dy ddillad?
2	Fedri di ddweud dau beth am dy byjamas? (maen nhw'n goch, rydw i yn eu gwisgo)
3	Cer i nôl hosan, wedyn crys-t, wedyn llyfr.
3	Sut wyt ti'n teimlo pan mae hi'n amser gwely?
3	Beth wyt ti'n ei ddweud pan mae hi'n amser gwely?
4	Pam fod angen mynd i'r gwely?
4	Sut wyt ti'n gwybod ei bod hi'n amser codi?



Daw'r lluniau o lyfr 1000 Gair Cyntaf Sali Mali, Gwasg Gomer.



Cyfathrebu a Rhyngweithio / Communication and Interaction

